



## Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol

Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar Gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru



## Cyflwyniad

Mae eiriolaeth yn ymwneud â: siarad ar ran plant a phobl ifanc, gan rymuso plant a phobl ifanc i wneud yn siŵr bod eu hawliau yn cael eu parchu a bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed bob amser, mynegi barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a'u helpu i fynd drwy'r system.

Mae eiriolaeth effeithiol yn hanfodol os ydym am ddiogelu plant a phobl ifanc a'u hamddiffyn rhag arferion gwael a rhag cael eu cam-drin. Bwriad eiriolaeth yw siarad yn uchel dros blant a phobl ifanc ac yr oedd yn un o faterion canolog adroddiad Waterhouse.

### **Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant 2003**

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael eu clywed mewn materion sy'n effeithio ar eu dyfodol, fel a nodir yng [Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#). Mae Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i ddatblygu hawliau plant. O dan [Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#), mae gan Weinidogion Cymru ddyletswyddau i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn eu holl swyddogaethau.

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn ei wneud yn ofynnol i unrhyw berson roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae manylion ar weithredu y dyletswyddau wedi eu darparu yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 o'r Ddeddf.

Yn ychwanegol mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan y Ddeddf roi sylw i'r pwysigrwydd o ddarparu cymorth digonol i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan mewn penderfyniadau sydd yn effeithio arno ef neu hi i'r g raddau sy'n addas yn yr amgylchiadau.

Mae dyletswydd awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli (neu gymorth trwy gyfrwng cynrychiolaeth) mewn perthynas â'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn dod o dan adran 26A o Ddeddf Plant 1989.

Mae [Deddf Plant 1989 \(adrannau 17 a 26A\)](#) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu eiriolaeth ar gyfer sylwadau neu gwynion gan blentyn mewn perthynas â gwasanaethau a gafwyd naill ai fel **plentyn sy'n derbyn gofal** neu **blentyn mewn angen**. Ystyr plentyn "**sy'n derbyn gofal**" yw plentyn sydd naill ai yng ngofal awdurdod lleol neu sy'n cael llety o dan swyddogaethau awdurdod lleol o dan ran 3 o Ddeddf Plant 1989.

Caiff hyn ei ailddatgan o dan adran 171 - 178 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(adran 174\)](#) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu eiriolaeth ar gyfer sylwadau neu gwynion gan blentyn mewn perthynas â gwasanaethau a gafwyd naill ai fel **plentyn sy'n derbyn gofal** neu **blentyn ac arno/arni angen gofal a chymorth**. Ystyr plentyn "**sy'n derbyn gofal**" yw plentyn sydd naill ai yng ngofal awdurdod lleol neu sy'n cael llety o dan swyddogaethau awdurdod lleol o dan ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn gosod datganiadau canlyniadau lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae hyn yn cynnwys eiriolaeth. Mae'r fframwaith yn datgan fod yn rhaid i bobl siarad drostynt eu hunain a chyfrannu at benderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau, neu fod ganddynt rhywun a all wneud ar eu rhan. Mae'n rhaid mesur cyflawniad hynny.

Mae'n hanfodol bod comisiynwyr gwasanaethau eirioli a darparwyr gwasanaethau eirioli yn gallu mesur ansawdd yn ogystal â maint eu gwaith a bod yn sicr eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc. Mae'r ddogfen hon yn gosod fframwaith sylfaenol o safonau a chanlyniadau ar gyfer eiriolaeth.

## Cefndir

Yn ystod haf 2014, cyfarfu Gweinidogion i gynnal adolygiad strategol o'r dystiolaeth a ddarparwyd drwy nifer o adroddiadau, ochr yn ochr â'r gwerthusiad o MEIC a'r negeseuon cynnar a oedd yn deillio o arolygiad AGGCC o'r trefniadau diogelu a chynllunio gofal ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Estynnodd Gweinidogion wahoddiad i lywodraeth leol ddatblygu model i sicrhau dull cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i blant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen ac unigolion penodol eraill. Sefydlwyd Grŵp Uwch Arweinwyr, a oedd yn cynnwys y Comisiynydd Plant, i oruchwylio datblygiad y Dull Cenedlaethol.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, dan gadeiryddiaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a Llywodraeth Cymru, a phartneriaid eraill. Ei dasg oedd datblygu prif elfennau Dull Cenedlaethol a fyddai'n cydymffurfio â Fframwaith Safonau a Chanlyniadau ac yn ystyried yr argymhelliad ynglŷn â "chynnig gweithredol" yn adroddiad y Comisiynydd Plant, 'Lleisiau Coll: yr Hawl i Gael eu Clywed'.

Byddai model y Dull Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno drwy awdurdodau arweiniol y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol bryd hynny. Darparodd Llywodraeth Cymru yr adnodd ar ffurf secondiad, i ymgymryd â swydd rheolwr y prosiect.

Cafodd y prif elfennau hyn eu pennu a'u datblygu gan y grŵp:

- Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol sy'n cynnwys dull gweithredu ar gyfer y 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth a nodwyd yn 'Lleisiau Coll' ac yn mapio'r cysylltiadau rhwng y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol a'r Datganiad Llesiant sy'n ategu'r Ddeddf
- Dull Cenedlaethol – Manyleb Gwasanaeth Rhanbarthol (yn darparu manylebau cyson ar gyfer comisiynu gwasanaethau)
- Dull Cenedlaethol – Templed Adrodd ar Berfformiad Rhanbarthol i ddarparu'r dystiolaeth a'r ystadegau a nodir yn y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol at ddibenion monitro ansawdd a pherfformiad gwasanaethau
- Dull Asesu Ystod a Lefel (Capasiti Gwasanaeth) sydd, o'i gymhwyso i'r boblogaeth gymwys yn lleol ac yn rhanbarthol, yn helpu i fesur gofynion capasiti gwasanaethau a chostau cysylltiedig.

Cynhyrchodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) gynllun gweithredu i ddatblygu'r dull cenedlaethol a gytunwyd gan holl awdurdodau lleol Cymru.

## Datganiad o Fwriad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroi i fwrw ymlaen â'i hymrwymyiadau sy'n ymwneud â'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol yn y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, mae angen gwneud hyn ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol wedi'u rheoleiddio o dan Ddeddf Rheoleiddio ac

Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys diweddaru Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

O ganlyniad, rydym yn bwriadu sefydlu grŵp technegol i gynghori ar y canlynol:

- a) Diweddaru Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth fel ei fod yn rhoi ystyriaeth i'r Dull Cenedlaethol o Ddarparu Gwasanaethau Eirioli i Blant. Bydd gofyn cynnwys y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol wrth wneud hyn; a
- b) Diffinio Eirioli Proffesiynol Annibynnol a gosod y safonau ar gyfer y gwasanaethau wedi'u rheoleiddio o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb digonol â'r safonau o dan y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i osgoi dyblygu ac i sicrhau eglurder i awdurdodau lleol a darparwyr. Bydd y gwasanaethau wedi'u rheoleiddio hefyd yn berthnasol i blant ac oedolion.

Ein bwriad yw cwblhau'r gwaith gyda'r grŵp technegol erbyn yr hydref a chyflwyno'r cod diwygiedig ar Ran 10 yn ystod y gaeaf, pan fydd y sefyllfa o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn glir.

## Diben

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r canlyniadau y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl mewn perthynas ag eiriolaeth plant a phobl ifanc. Mae'n nodi'r fframwaith sy'n galluogi darparwyr gwasanaethau eirioli a'r rhai sy'n eu comisiynu i fod yn siŵr bod y safonau hynny'n cael eu cyrraedd, gan ei gwneud yn bosibl iddynt ddangos tystiolaeth eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

Mae'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau (y Fframwaith) yn adeiladu ar sylfeini, ac wedi'i groesgyfeirio at, y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003) gwreiddiol y mae'n eu disodli. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r [Canllawiau ar ddelio â chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol \(Awst 2014\)](#).

Y Safonau (2003)	
1	Mae eiriolaeth yn cael ei arwain gan farn a dymuniadau plant a phobl ifanc
2	Mae eiriolaeth yn cefnogi hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc
3	Mae gan yr holl Wasanaethau Eiriolaeth bolisiâu clir i hyrwyddo materion cydraddoldeb a monitro gwasanaethau i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw berson ifanc oherwydd anabledd, oed, rhyw, hil, diwylliant, crefydd, iaith, tuedd rywiol neu genedligrwydd
4	Mae eiriolaeth yn cael cyhoeddusrwydd da, ac yn hygyrch ac yn hawdd ei ddefnyddio
5	Mae gwasanaethau eirioli yn ymatebol ac yn rhoi help a chynghor yn gyflym pryd bynnag y bydd rhywun yn cysylltu

6	Mae eiriolaeth yn gweithio ar gyfer plant a phobl ifanc yn unig
7	Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth yn gweithredu hyd at lefel uchel o gyfrinachedd ac yn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac asiantaethau eraill yn ymwybodol o'i bolisiau cyfrinachedd
8	Mae eiriolaeth yn gwrando ar farn a syniadau plant a phobl ifanc er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir
9	Mae gan y gwasanaeth eiriolaeth weithdrefn cwynion effeithiol a hawdd ei defnyddio
10	Mae eiriolaeth yn cael ei rheoli yn dda ac yn rhoi gwerth am arian

Mae'r safonau hyn wedi cael eu cyfuno'n safonau a datganiadau o ganlyniadau y ceir gwybodaeth fanylach ar eu cyfer wedyn o ran sut y gall comisiynwyr a darparwyr eiriolaeth ddangos/mesur sut y maent yn eu cyflawni. Mae cyswllt rhyngddynt â'r Datganiad Llesiant cyffredinol ([Atodiad A](#)) ac maent yn ategu'r datganiad hwnnw. Maent hefyd yn dangos sut y bydd awdurdodau lleol yn darparu tystiolaeth o sut y bydd plant a phobl ifanc yn cyflawni eu canlyniadau llesiant h.y. 'Sicrhau hawliau', 'Amddiffyn rhag cam-drin ac esgeuluso'.

#### **Datganiadau o ganlyniadau ar gyfer eiriolaeth**

1	Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arny'n nhw.
2	Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn.
3	Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin â pharch ac mae pob math ar wahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei herio.
4	Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cefnogi.
5	Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dylunio, cynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau eirioli.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion o ran gofal a chymorth sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli ynghylch yr hyn y mae ganddynt hawl iddo, a sut y gallant fod yn rhan o'r broses o ddatblygu a gwerthuso'r gwasanaethau.

Mae fersiwn o'r Fframwaith hwn sy'n addas i bobl ifanc wedi cael ei chynhyrchu ar gyfer ymgynghori.

## **Manyleb Gwasanaeth a Thempled Adrodd ar gyfer y Dull Cenedlaethol**

### **Comisiynwyr eiriolaeth**

Dylai comisiynwyr sicrhau bod Darparwyr yn gallu ateb gofynion y contract a geir ym Manyleb y Gwasanaeth ac a ddarperir yn unol â'r Fframwaith hwn.

Dylai comisiynwyr hefyd sicrhau bod y darparwr eiriolaeth wedi sefydlu'r prosesau angenrheidiol i fodloni'r gofynion o ran darparu tystiolaeth a'r mesurau a nodir yn y Templed Adrodd ar Berfformiad.

Dylai comisiynwyr gynnal cyfarfodydd chwarterol i fonitro ansawdd y gwasanaeth, fel a nodir ym Manyleb y Gwasanaeth. Dylent hefyd sicrhau bod adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu.

### **Darparwyr eiriolaeth**

Dylai darparwyr eiriolaeth sicrhau eu bod wedi sefydlu prosesau i gasglu'r dystiolaeth a'r mesurau sy'n angenrheidiol ar gyfer adroddiadau chwarterol sy'n monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn y Fframwaith gan ddefnyddio'r Templed Adrodd ar Berfformiad.

Dylai darparwyr eiriolaeth baratoi adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd chwarterol i fonitro ansawdd y gwasanaeth fel a nodir ym Manyleb y Gwasanaeth. Dylent hefyd gynhyrchu adroddiad blynyddol.

Dylai fod pob eiriolwr yn datblygu gwybodaeth ddigonol am y Fframwaith, Manyleb y Gwasanaeth a'r Templed Adrodd fel rhan o'r broses sefydlu, gan roi sylfaen gadarn ar gyfer datblygu a darparu gwasanaeth eirioli o safon uchel.

### **Cyfrinachedd**

Mae cyfrinachedd yn rhan hollbwysig o'r berthynas, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch, rhwng plentyn neu berson ifanc sy'n ceisio cymorth ac eiriolwr sydd wedi cael gorchwyl i roi cymorth. Mae angen i eiriolwyr sicrhau cyfrinachedd mewn ffordd sy'n dangos i blant a phobl ifanc bod y gwasanaeth sy'n cael ei gynig ar wahân ac yn wahanol i'r gwasanaethau cymdeithasol neu unrhyw gorff arall sy'n comisiynu.

Trwy sicrhau cyfrinachedd gall gwasanaethau eirioli annog plant a phobl ifanc i fod â'r hyder a'r dewrder i rannu gwybodaeth ac i gymryd y camau angenrheidiol i ddatrys eu problemau. Yn y ffordd hon, gall gwasanaethau eirioli wella effeithiolrwydd gwasanaethau amddiffyn plant statudol, gan daflu rhaff hollbwysig i blant a phobl ifanc na fyddent byth yn ceisio cymorth gan oedolion fel arall o bosibl. ([Datganiad o Ganlyniad ar gyfer Eiriolaeth 2](#))



## **Polisi Cyfrinachedd**

Mae'r gwasanaeth eirioli'n gweithredu i lefel uchel o gyfrinachedd ac yn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac asiantaethau eraill yn ymwybodol o'i bolisiâu cyfrinachedd. Mae gan y gwasanaeth eirioli bolisi cyfrinachedd eglur sydd wedi'i seilio ar gydsyniad niwed arwyddocaol. Yn ogystal â phlant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, mae hyn yn cynnwys staff y gwasanaeth, ei gyllidwyr, gwasanaethau plant mewn awdurdodau lleol, asiantaethau lleol a gweithwyr proffesiynol eraill, ysgolion a, lle y bo'n briodol, rhieni neu ofalwyr plant a phobl ifanc.

Caiff y polisi cyfrinachedd ei egluro wrth blant a phobl ifanc cyn iddynt drafod y rhesymau pam eu bod wedi cysylltu â'r gwasanaeth. Rhoddir crynodeb iddynt o'r polisi mewn iaith sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc. Caiff plant a phobl ifanc eu sicrhau bod eu preifatrwydd yn cael ei barchu bob amser ac na fydd unrhyw beth yn cael ei ddatgelu y tu allan i'r gwasanaeth heb eu cytundeb, oni bai bod hynny'n angenrheidiol er mwyn atal niwed arwyddocaol iddynt hwy neu i rywun arall, neu os yw gorchymyn llys yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r wybodaeth. Cânt eu sicrhau hefyd y byddant yn cael gwybod os yw gwybodaeth yn mynd i gael, neu wedi cael, ei throsglwyddo.

Lle mae'r gwasanaeth yn credu ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo gwybodaeth i asiantaethau statudol a bod y plentyn neu'r person ifanc yn peidio â rhoi cydsyniad i wneud hyn, mae'r eiriolwr yn ei hysbysu ynghylch y rhesymau dros weithredu fel hyn. Caiff y rhesymau eu cofnodi'n ysgrifenedig. Mae canllawiau statudol ynghylch rhannu gwybodaeth i amddiffyn plant os oes pryderon y gallent wynebu risg o niwed arwyddocaol wedi'u hamlinellu o dan Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Datganiad canlyniad eiriolaeth 1 – Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arnyn nhw**

Safonau		Tystiolaeth/Mesurau	
		Comisiynwyr	Darparwyr
<p><b>a) Mae gwasanaethau eirioli yn ymatebol ac yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth heb oedi pan gysylltir â hwy</b></p>	<p>Mae eiriolaeth annibynnol ar gael i blant a phobl ifanc pan fo'i hangen arnynt.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth fod gan y gwasanaeth y gallu i ymateb i gysylltiadau heb oedi.</p> <p>Mae gallu'r gwasanaeth yn seiliedig ar Aseiad o Anghenion Poblogaeth yn unol â dyletswyddau comisiynwyr o dan y Ddeddf (A14) y gallant ddangos tystiolaeth ei fod yn gallu cyflawni hawliau'r boblogaeth.</p>	<p>Mae Darparwyr Eiriolaeth yn gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>dangos tystiolaeth eu bod yn ymateb i gysylltiadau heb oedi.</li> <li>dangos tystiolaeth eu bod yn gallu ateb y galw am y gwasanaeth.</li> </ul>
<p><b>b) Rhoddir cyhoeddusrwydd da i wasanaethau eirioli ac maent yn darparu amrywiaeth o ddulliau cysylltu.</b></p>	<p>Mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael ar eiriolaeth annibynnol.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth bod gofynion o ran rhoi cyhoeddusrwydd i eiriolaeth yn cael eu nodi ym Manyleb y Gwasanaeth a'u bod yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd monitro ansawdd.</p> <p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael 'cynnig gweithredol' o ran eiriolaeth yn dilyn dod yn blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal ac ar adegau dynodedig eraill yn ystod eu gofal (gweler <a href="#">Atodiad B</a>).</p> <p>Mae comisiynwyr yn mynd ati'n weithredol i annog yr holl ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ogystal ag asiantaethau, timau ac oedolion eraill sydd mewn sefyllfa i hysbysu plant a phobl ifanc ynghylch eiriolaeth:</p>	<p>Mae Darparwyr Eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o ystod addas o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd mewn amrywiaeth o fformatau – gyda chynllun dosbarthu y cytunwyd arno.</p> <p>Mae Darparwyr Eiriolaeth yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>data ar weithgarwch atgyfeirio sy'n deillio o 'gynigion gweithredol' yn eu hadroddiadau.</li> <li>data ar ffynonellau atgyfeiriadau/cysylltiadau yn eu hadroddiadau.</li> </ul> <p>Mae Darparwyr Eiriolaeth yn mynd ati'n weithredol i annog yr holl asiantaethau, timau ac oedolion sydd mewn sefyllfa i hysbysu plant a phobl ifanc ynghylch eiriolaeth:</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• i wneud hynny</li> <li>• i'w hannog i'w defnyddio</li> <li>• i hwyluso eu cyswllt cyntaf</li> </ul> <p>Mae comisiynwyr yn mynd ati'n weithredol i annog y rhai sydd mewn sefyllfa i gynghori plant a phobl ifanc i fynychu sesiynau ymwybyddiaeth a ddarperir gan y gwasanaeth eiriolaeth fel rhan o Fanyleb y Gwasanaeth.</p> <p><b>(Gweler y Datganiad o Ganlyniad ar gyfer Eiriolaeth 4i)</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• i wneud hynny</li> <li>• i'w hannog i'w defnyddio</li> <li>• i hwyluso eu cyswllt cyntaf.</li> </ul> <p>Mae'r Darparwyr Eiriolaeth yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer y rhai sydd mewn sefyllfa i gynghori plant a phobl ifanc a'u cyflwyno i ymarfer Eiriolaeth Ffurfiol/Anffurfiol sy'n gysylltiedig â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.<sup>1</sup></p>
<b>c) Darperir gwasanaethau eirioli mewn mannau ac ar amseroedd sy'n eu gwneud yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc.</b>	Mae eiriolaeth annibynnol ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arnyn nhw.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn cael manylion yr ystod o leoliadau a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd gyda phlant a phobl ifanc yn eu hadroddiadau monitro ansawdd gwasanaeth – ynghyd â thystiolaeth o fynediad i blant anabl, asesiadau risg a pheryglon a gwblhawyd a.y.b.	Mae Darparwyr Eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth: <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod lleoliadau hygyrch yn cael eu defnyddio wrth gwrdd â phlant a phobl ifanc.</li> <li>• bod asesiadau priodol o risgiau a pheryglon yn cael eu cwblhau.</li> </ul>
<b>d) Mae gan wasanaethau eirioli wasanaeth peiriant ateb dwyieithog sy'n weithredol pan nad oes staff ar ddyletswydd yn y gwasanaeth, sy'n egluro sut i gael help ar unwaith ynghyd â manylion cyswllt yn ogystal ag amserlen ar gyfer ymateb i unrhyw negeseuon sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau a gaiff eu recordio.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn gallu cael cymorth y tu allan i oriau'r gwasanaeth ac yn cael ymateb i unrhyw negeseuon y maent yn eu gadael o fewn amserlen benodedig.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth bod y gofyniad i ddarparu gwasanaeth peiriant ateb yn rhan o Fanyleb y Gwasanaeth a bod manylion o'i ddefnydd yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro ansawdd.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth bod manylion y defnydd o'r gwasanaeth peiriant ateb ac amseroedd ateb yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro ansawdd.

<sup>1</sup> [SCDHSC0367 - Cynorthwyo unigolion i gael mynediad at gynrychiolaeth ac eiriolaeth annibynnol](#)

<p><b>e) Mae gan wasanaethau eirioli Gynllun Gweithredu Eiriolaeth a ddogfennir yn eglur ac y cytunwyd arno gyda'r plentyn neu berson ifanc, gan gynnwys camau gweithredu ar hyd llinell amser ac apwyntiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer diweddariadau</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc yn deall sut y byddai'r gwasanaeth eiriolaeth annibynnol yn eu helpu ac yn cytuno ar eu Cynllun Gweithredu Eiriolaeth.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn adolygu Cynlluniau Gweithredu Eiriolaeth dienw fel rhan o'u gweithgarwch i fonitro ansawdd y gwasanaeth.</p>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o Gynlluniau Gweithredu y cytunwyd arnynt rhwng yr eiriolwr a'r plentyn neu berson ifanc.</p>
<p><b>f) Mae gan staff gwasanaethau eirioli swydd-ddisgrifiadau eglur a manwl sy'n gysylltiedig â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol<sup>2</sup> ac maent yn cael hyfforddiant<sup>3</sup> a goruchwyliaeth o fath priodol</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth gan eiriolwyr a rheolwyr sy'n deall diben y gwasanaeth, yn deall eu ffiniau a llinellau atebolrwydd ac wedi'u hyfforddi i safon uchel i gyflawni eu rolau'n effeithiol.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• fod swydd-ddisgrifiadau eglur, trefniadau hyfforddiant a chymorth a pholisïau dynodedig yn cael eu hamodi ym Manyleb y Gwasanaeth ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol.</li> <li>• bod Manyleb y Gwasanaeth yn cynnwys disgwyliad bod eiriolwyr yn ennill y Cymhwyster C&amp;G Lefel 3 o fewn amserlen benodol.</li> </ul>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth fod ganddynt swydd-ddisgrifiadau eglur, trefniadau hyfforddiant a chymorth a bod y polisïau dynodedig yn eu lle.</p> <p>Mae eiriolwyr yn cael eu cynorthwyo i ennill y Cymhwyster C&amp;G Lefel 3 mewn Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol<sup>4</sup></p>
<p><b>g) Mae gwasanaethau eirioli yn casglu ac yn monitro data'n rheolaidd ar waith y gwasanaeth at ddibenion monitro ansawdd ac maent hefyd yn defnyddio adborth gan blant a phobl ifanc i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth sydd;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cael ei fonitro o safbwynt ansawdd</li> <li>• yn eu galluogi ac yn eu hannog i roi adborth</li> <li>• yn gallu cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaeth.</li> </ul>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfarfodydd rheolaidd i fonitro ansawdd y gwasanaeth sy'n ymdrin ag ystod o ddata ar y gwasanaeth gan gynnwys: amseroedd ymateb, gweithgarwch 'cynnig gweithredol', deunydd cyhoeddusrwydd ac</li> </ul>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu tystiolaeth o adroddiadau a gyflwynwyd at ddibenion monitro ansawdd ac enghreifftiau o welliannau i'r gwasanaeth sy'n adlewyrchu adborth gan blant a phobl ifanc.</li> </ul>

<sup>2</sup> [SCDLDS434 Gweithredu fel eiriolwr annibynnol](#)

[Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Rheoli ac Arwain](#) (neu safonau cyfatebol)

<sup>3</sup> Mae hyfforddiant yn cynnwys – Eiriolaeth, Amddiffyn Plant, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, (Lefel 3 OCN neu lefel gyfatebol) – Mae modiwlau hyfforddiant arbenigol yn cynnwys – Gwaharddiadau o Ysgolion, Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd, Gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl – Sgiliau cyfathrebu estynedig a.y.b.

<sup>4</sup> [Diploma C&G-Tystysgrif mewn Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol](#)

		<p>ymwybyddiaeth, lleoliadau a ddefnyddir, enghreifftiau o Gynlluniau Gweithredu Eiriolaeth, hyfforddiant ar gyfer staff, goruchwyliaeth ar gyfer staff a'r holl adborth gan blant a phobl ifanc sy'n awgrymu gwelliannau i'r gwasanaeth</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• bod yr adroddiadau hyn yn cael eu rhannu ag Aelodau Arweiniol, Panelau Rhianta Corfforaethol a Phwyllgorau Craffu a bod ymgysylltiad rhyngddynt a'r gwasanaeth eiriolaeth, a bod systemau atebolrwydd eraill ar waith er mwyn craffu ar adroddiadau.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• darparu tystiolaeth o ymgysylltu ag Aelodau Etholedig, Panelau Rhianta Corfforaethol a Phwyllgorau Craffu, a bod systemau atebolrwydd eraill ar waith er mwyn craffu ar adroddiadau.</li><li>•</li></ul>
--	--	---	--

**Datganiad canlyniad eiriolaeth 2 – Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn**

Safonau		Tystiolaeth/Mesurau	
		Comisiynwyr	Darparwyr
<b>a) Mae gwasanaethau eirioli yn gweithio i lefel uchel o gyfrinachedd ac yn parchu preifatrwydd plant a phobl ifanc bob amser. Maent yn gweithredu yn gyson â gweithdrefnau Byrddau Diogelu. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu a'i hystyr yn cael ei hegluro wrth blant a phobl ifanc cyn i eiriolaeth ddechrau.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn hyderus y bydd eu preifatrwydd a'u cyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae ganddynt ddealltwriaeth am bolisi cyfrinachedd y gwasanaeth a'r amodau pan fo'n rhaid gwneud datgeliad.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth fod polisi cyfrinachedd y gwasanaeth eirioli'n cael ei rannu ymhlith ei staff ei hun, gofawlyr, rhieni, gwarcheidwaid, plant a phobl ifanc ac asiantaethau eraill.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth fod polisi cyfrinachedd y gwasanaeth yn cael ei ddeall gan ei staff a'i egluro i ofalwyr, rhieni, rhieni maeth, plant a phobl ifanc ac asiantaethau eraill.
<b>b) Mae gan wasanaethau eirioli bolisi cadarn ar amddiffyn plant a phroses gadarn ar gyfer atgyfeirio yn unol â gweithdrefnau amddiffyn cenedlaethol.</b>	Mae lles plant a phobl ifanc yn cael ei ddiogelu yn unol â gweithdrefnau amddiffyn cenedlaethol.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth fod ganddynt brotocol a phroses atgyfeirio y cytunwyd arnynt ar gyfer achosion pan fydd angen i wasanaethau eirioli wneud datgeliad amddiffyn plant.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth fod polisi amddiffyn plant a gweithdrefnau atgyfeirio'r gwasanaeth yn cael eu ddeall yn llawn gan eu staff a'u gweithredu'n effeithiol.
<b>c) Pan fo angen i wasanaethau eirioli wneud atgyfeiriad ar ôl datgeliad, byddant yn egluro'r sefyllfa wrth y plentyn neu berson ifanc, yn ceisio'i gydsyniad ac yn ceisio cynnal y berthynas eiriolaeth.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hatgoffa o'r polisi cyfrinachedd, yn cael eu hysbysu bod atgyfeiriad yn angenrheidiol ym marn y gwasanaeth, yn cael cyfle i roi eu cydsyniad a'r cymorth eiriolaeth yn cael ei gynnal lle bynnag y bo'n bosibl.	Mae gan gomisiynwyr brotocol atgyfeirio y cytunwyd arno ar gyfer achosion pan fydd angen i wasanaethau eirioli wneud datgeliad amddiffyn plant (2b) sy'n gefnogol i barhad y berthynas eirioli lle bod hynny yn ddiogel ac yn briodol	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth fod polisi cyfrinachedd y gwasanaeth a'r rheswm dros ddatgelu'n cael eu hegluro a'u rhannu gyda phlant a phobl ifanc a bod cefnogaeth yr eiriolwr yn parhau lle bo hynny'n bosib
<b>d) Mae gan wasanaethau eirioli bolisi a gweithdrefn cwynion sy'n eglur ac yn addas ar gyfer plant ac yn cael eu hegluro wrthynt a'r rheiny'n cynnwys terfynau amser</b>	Mae plant a phobl ifanc yn deall sut i wneud sylw neu gwyn ynghylch y gwasanaeth eirioli.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth bod y gofyniad i fod â pholisi cwynion sy'n eglur ac yn addas ar gyfer plant wedi'i amodi ym Manyleb y Gwasanaeth ynghyd â gofyniad i adrodd	Mae Darparwyr Eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth bod polisi cwynion y gwasanaeth yn eglur ac yn addas ar gyfer plant – bod cwynion, sylwadau neu ganmoliaeth ynghyd ag

<p>sydd wedi'u diffinio'n eglur</p>		<p>ar unrhyw gwynion a gafwyd a chanlyniadau'r cwynion hynny yn adroddiadau monitro ansawdd y gwasanaeth.</p>	<p>unrhyw ganlyniadau'n cael eu gwneud yn hysbys mewn adroddiadau i gomisiynwyr.</p>
<p><b>e) Mae Gwasanaethau Eirioli yn darparu manylion ynglŷn â ffyrdd eraill o gael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth neu gefnogaeth i gwyno am y gwasanaeth eiriolaeth gan gynnwys yr Awdurdod Lleol a Chomisiynydd Plant Cymru</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwneud yn ymwybodol o ffyrdd eraill o wneud sylw neu gŵyn ynghylch y gwasanaeth eirioli.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth trwy adroddiadau monitro ansawdd o ddigwyddiadau pan fo plant a phobl ifanc wedi cael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o ffynonellau eraill mewn perthynas â phryder neu gŵyn am y gwasanaeth eiriolaeth.</p>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o gymorth arall i wneud sylw neu gŵyn ynghylch y gwasanaeth eirioli.</p> <p>Mae'r holl bryderon a chwynion yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro ansawdd ac felly hefyd enghreifftiau o ganmoliaeth a gafwyd.</p>

**Datganiad Canlyniad Eiriolaeth 3 – Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin â pharch ac mae pob math ar wahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei herio**

Safonau		Tystiolaeth/Mesurau	
		Comisiynwyr	Darparwyr
<b>a) Mae gwasanaethau eirioli yn sicrhau nad yw'r un plentyn na pherson ifanc yn dioddef gwahaniaethu unai oddi wrth y gwasanaeth neu unrhyw fan arall.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn ymwybodol o wasanaethau eirioli ac yn gallu eu defnyddio heb ofni y byddant yn dioddef gwahaniaethu.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth bod y gofyniad i fod â pholisi gwrthwahaniaethu cadarn wedi'i amodi ym Manyleb y Gwasanaeth.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth bod polisi gwrthwahaniaethu'r gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo, ei rannu, ei ddeall a'i ddilyn gan ei staff.
<b>b) Dylai gwasanaethau eirioli wneud plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau o dan y gyfraith<sup>5</sup>, ac o dan bolisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth yr asiantaethau y maent yn cael gwasanaethau ganddynt.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn cael cymorth gan wasanaethau eirioli i sicrhau eu hawliau neu i herio gwahaniaethu.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth o'r modd y maent yn ymateb i heriau yn erbyn gwahaniaethu gan y gwasanaethau eirioli ar ran y plentyn neu berson ifanc.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth bod/y byddai gwahaniaethu'n cael ei herio pe byddid/pan fyddid yn dod ar ei draws.
<b>c) Mae gwasanaethau eirioli yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n parchu anghenion diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol y plentyn neu'r person ifanc.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at wasanaethau eirioli sy'n parchu ac yn ystyried eu hanghenion diwylliannol a chrefyddol ac yn cael eu darparu yn eu dewis iaith.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth: <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod y gofyniad i fod â dull datganedig o barchu anghenion diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol plentyn neu berson ifanc wedi'i amodi fel rhan o Fanyleb y Gwasanaeth.</li> <li>• bod yr angen i wasanaethau/trefniadau gael eu sefydlu i gefnogi hawl y plentyn neu'r person ifanc i gael gwasanaethau yn ei ddewis iaith wedi ei amodi ym Manyleb y Gwasanaeth.</li> </ul>	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos tystiolaeth bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y gwasanaeth yn cael ei rannu, ei ddeall a'i ddilyn gan ei staff.</li> <li>• dangos tystiolaeth o fynediad at gyfieithwyr ar y pryd</li> <li>• dangos tystiolaeth o'r camau a gymerwyd i sicrhau proffil staff amrywiol gan gynnwys sgiliau iaith<sup>6</sup>.</li> </ul>
<b>d) Mae gwasanaethau eirioli yn</b>	Mae plant a phobl ifanc o grwpiau sydd	Mae comisiynwyr yn gallu dangos	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu

<sup>5</sup> Mae eiriolwyr wastad yn hysbysu plant ynghylch eu hawliau o dan [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), a'r [CCUHP](#).

<sup>6</sup> [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)



<p><b>cymryd camau i estyn allan a hybu mynediad ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (3.2)</b></p>	<p>wedi’u hymleiddio yn cael eu hysbysu ynghylch gwasanaethau eirioli ac yn cael eu hannog i geisio mynediad at gymorth.</p>	<p>tystiolaeth bod y gofyniad i fod â strategaeth allgymorth ddatganedig ar gyfer ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi’i amodi ym Manyleb y Gwasanaeth gydag adolygiadau rheolaidd wedi’u hamserlennu.</p>	<p>dangos dystiolaeth o strategaethau allgymorth, costau a neilltuwyd a dyddiadau adolygu.</p>
<p><b>e) Mae gwasanaethau eirioli yn ymatebol i anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc anabl unigol<sup>7</sup></b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc anabl ag anghenion cyfathrebu cymhleth yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth a chael cymorth eiriolwr.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos dystiolaeth bod y gofynion i fod â’r sgiliau angenrheidiol i weithio gyda phlant anabl ag anghenion cyfathrebu wedi’u hamodi ym Manyleb y Gwasanaeth a bod adolygiadau rheolaidd wedi’u hamserlennu.</p>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos dystiolaeth bod dulliau cyfathrebu estynedig yn cael eu defnyddio gan eiriolwyr sy’n meddu ar y sgiliau pan fo angen hynny.</p>

<sup>7</sup> Lle cyfyngir yn ddifrifol ar gyfathrebu neu lle na ellir cyfathrebu o gwbl efallai y bydd angen i’r gwasanaeth ddefnyddio dull ‘Heb Gyfarwyddyd’ ar gyfer eiriolaeth.-  
[Atodiad C](#)

**Datganiad Canlyniad Eiriolaeth 4– Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a’u teimladau'n cael eu cefnogi**

Safonau		Tystiolaeth/Mesurau	
		Comisiynwyr	Darparwyr
a) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn gweithio’n agored gyda phlant a phobl ifanc a throstynt hwy yn unig, yn cael eu harwain gan eu barn a’u dymuniadau ac yn cefnogi eu hawliau.</b>	Mae plant a phobl ifanc sy’n defnyddio gwasanaethau eirioli yn cael eu cefnogi, y mae eu barn a’u dymuniadau’n cael eu clywed a’u hawliau’n cael eu parchu.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth eu bod wedi cael ac ymateb i farn a dymuniadau plant a phobl ifanc yn ogystal â sylwadau am eu hawliau.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn gweithio dros blant a phobl ifanc yn unig, eu bod yn cefnogi eu hawliau ac yn cael eu harwain gan eu dymuniadau a’u teimladau.
b) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn cael eu cyllido a’u rheoli mewn ffordd sy’n dangos yn eglur eu bod yn annibynnol ar y comisiynwyr.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn hyderus bod gwasanaethau eirioli yn gweithredu’n annibynnol ar gomisiynwyr.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth bod statws annibynnol y gwasanaeth eirioli wedi’i amodi ym Manyleb y Gwasanaeth gyda phrosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer datrys gwrthdaro posibl.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o’r modd y maent yn cyfleu eu statws annibynnol i blant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol eraill.
c) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc am eu hawliau; ffynonellau eraill ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth, yn eu helpu i archwilio’u hopsiynau a chanlyniadau posibl unrhyw ddull gweithredu.</b>	Mae plant a phobl ifanc sy’n defnyddio gwasanaethau eirioli yn cael eu hysbysu ynghylch eu hawliau ac yn cael eu helpu i archwilio’u hopsiynau a chanlyniadau posibl unrhyw ddull gweithredu.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth eu bod wedi cael sylwadau gwybodus ac ystyriol gan blant a phobl ifanc.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc am eu hawliau ac yn eu helpu i archwilio’u hopsiynau a chanlyniadau posibl unrhyw ddull gweithredu arbennig.
d) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sy’n dymuno gwneud sylw neu gŵyn.<sup>8</sup></b>	Mae plant a phobl ifanc sy’n dymuno gwneud sylw neu gŵyn yn ymwybodol o’u hawliau ac yn cael mynediad at wasanaethau eirioli.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth eu bod wedi hysbysu plant a phobl ifanc sy’n dymuno neu’n bwriadu gwneud sylw neu gŵyn am eu hawl i eiriolaeth a sut i gael mynediad ati.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o roi cymorth i blant a phobl ifanc sy’n dymuno neu’n bwriadu gwneud sylw neu gŵyn.

8

<p>e) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn atgyfeirio plant a phobl ifanc ar gyfer cyngor cyfreithiol ac arbenigol pan fo'n briodol. Maent yn cynnal rhestr o ffynonellau sy'n darparu gwasanaeth da.</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli yn cael eu grymuso a'u helpu i geisio cyngor arbenigol neu gyfreithiol.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth trwy eu hadroddiadau monitro o nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael cymorth i gael mynediad at gyngor arbenigol neu gyfreithiol.</p>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth trwy eu hadroddiadau monitro o nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael cymorth i gael mynediad at gyngor arbenigol neu gyfreithiol.</p>
<p>f) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn deall sut i ofyn am newid eiriolwr</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli yn cael eu grymuso ac yn gallu arfer eu hawl i newid eiriolwr.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth trwy eu hadroddiadau monitro bod yr opsiwn i newid eiriolwr yn cael ei roi i'r plant a'r bobl ifanc a dangos enghreifftiau o achosion pan arferwyd y dewis hwnnw.</p>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth trwy eu hadroddiadau monitro bod yr opsiwn i newid eiriolwr yn cael ei egluro wrth y plant a'r bobl ifanc a dangos data i ddangos tystiolaeth o'r nifer sy'n arfer yr opsiwn.</p>
<p>g) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn galluogi plant a phobl ifanc i benderfynu sut i gyfrannu – ar eu pennau eu hunain, yr eiriolwr yn siarad ar eu rhan neu ar y cyd gydag eiriolwr</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli yn cael eu cefnogi o ran eu dewis ynghylch sut i gyfrannu.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth eu bod wedi cael sylwadau gan blant a phobl ifanc a oedd yn siarad drostynt hwy eu hunain, eiriolwr yn siarad ar ran plant a phobl ifanc neu gan blant a phobl ifanc a oedd yn cyfrannu ar y cyd gydag eiriolwr.</p>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o helpu plant a phobl ifanc i gyfrannu trwy siarad drostynt hwy eu hunain, gadael i eiriolwr siarad ar eu rhan neu gan blant a phobl ifanc a oedd yn cyfrannu ar y cyd gydag eiriolwr.</p>
<p>h) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn helpu plant a phobl ifanc i baratoi ar gyfer cyflwyno'u barn yn uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – gan eu helpu gyda sgiliau cyfathrebu neu bendantrwydd neu i baratoi cyflwyniadau</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc cael eu cefnogi, wedi paratoi ac yn fwy hyderus wrth gyflwyno'u barn yn uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth o enghreifftiau [astudiaethau achos] pan fônt wedi cael sylwadau gan blant a phobl ifanc sy'n adlewyrchu'r gwaith paratoi a'r cymorth a ddarparwyd gan y gwasanaeth eirioli.</p>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o enghreifftiau [astudiaethau achos] pan fo plant a phobl ifanc wedi cael cymorth i baratoi ar gyfer cyflwyno'u barn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.</p>
<p>i) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn cefnogi hawliau plant yn eu gwaith gyda gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc</b></p>	<p>Mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli yn ymwybodol bod eu hawliau'n cael eu cefnogi gyda gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.</p>	<p>Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth o enghreifftiau pan wnaethant hwyluso'r gwasanaeth eirioli i ddarparu cyflwyniadau am hawliau plant ar gyfer fforymau proffesiynol amrywiol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc</p>	<p>Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o gefnogi hawliau plant yn eu gwaith gyda gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.</p>

		fel a nodir ym Manyleb y Gwasanaeth.	
j) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn cadw cofnodion achosion manwl o waith a wnaed sy'n cynnwys y cynllun gweithredu eiriolaeth, gweithgarwch, materion, canlyniadau ac adborth y gall plant a phobl ifanc gael mynediad atynt</b>	Mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli yn cael eu grymuso ac yn dawl eu meddwl bod gwasanaethau eirioli yn gweithio drostynt hwy yn unig.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn cael astudiaethau achos dienw fel rhan o'u hadroddiadau monitro rheolaidd.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o gofnodion achosion manwl sy'n cynnwys y cynllun gweithredu eiriolaeth, gweithgarwch, materion, canlyniadau ac adborth.
k) <b>Mae gwasanaethau eirioli yn nodi themâu a materion allweddol a godwyd gan blant a phobl ifanc ac yn cyflwyno'r achos dros newid gwasanaethau (eiriolaeth systemig)</b>	Mae plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli yn cael eu grymuso ac yn gallu effeithio ar y ffordd y mae'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn cael eu darparu.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn derbyn sylwadau o blaid newid systemig fel rhan o'u hadroddiadau monitro rheolaidd.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o themâu a materion cyffredin a gyflwynir i gomisiynwyr lleol y gellir ei defnyddio fel sail i ddysgu ac i wella darpariaeth/cyflenwi.

**Datganiad Canlyniad Eiriolaeth 5– Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dylunio, cynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau eirioli**

Safonau		Tystiolaeth/Mesurau	
		Comisiynwyr	Darparwyr
<b>a) Mae gwasanaethau eirioli yn hybu ac yn hwyluso cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc i'w galluogi i fynegi eu barn am y gwasanaeth.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso i fynegi eu barn am y gwasanaeth eirioli y maent yn ei dderbyn.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn ceisio ac yn derbyn arolwg adborth blynyddol gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn ychwanegol at ymatebion ynghylch lefelau bodlonrwydd ar adeg dirwyn achosion unigol i ben.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o ganlyniadau arolwg adborth blynyddol gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn ogystal ag ymatebion ynghylch lefelau bodlonrwydd ar adeg dirwyn achosion unigol i ben.
<b>b) Mae gwasanaethau eirioli yn galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi yn y broses o ddylunio, cynllunio, cyflenwi a gwerthuso'r gwasanaeth yn ogystal â'r broses o recriwtio staff.</b>	Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac yn cael eu cynnwys yn y broses o werthuso, datblygu a gwella'r gwasanaeth.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth bod trefniadau ar gyfer gweithgarwch cyfranogi'n cael ei nodi ym Manyleb y Gwasanaeth.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o gyfranogiad o fewn y gwasanaeth. Mae arfer yn cydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad <sup>9</sup>
<b>c) Mae gwasanaethau eirioli, wrth geisio help gan blant a phobl ifanc i wella'r gwasanaeth, yn gwneud pob ymdrech i gael cydbwysedd barn sy'n cynrychioli pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth.</b>	Mae plant a phobl ifanc o drawstoriad cynrychiadol o ddefnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu, gwerthuso a gwella gwasanaethau.	Mae comisiynwyr yn gallu dangos tystiolaeth bod y gofyniad i sicrhau cyfranogiad teg a chynrychiadol wedi'i nodi ym Manyleb y Gwasanaeth.	Mae darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos tystiolaeth o drefniadau ar gyfer cyfranogiad teg a chynrychiadol yn eu cynlluniau datblygu gwasanaeth yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad.

<sup>9</sup> [Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.](#)

## Datganiad Llesiant ac Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol

Yr hyn y mae llesiant yn ei olygu	Yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddisgwyl	Yr hyn y byddwn yn ei fesur	Y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol wedi'i fapio yn erbyn y Datganiad Lles
<p>Sicrhau hawliau a hawlogaethau</p> <p>Hefyd i oedolion: Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael i mi ac rwy'n defnyddio'r rhain i helpu sicrhau fy llesiant fy hunan</li> <li>– Gallaf gael mynediad at yr wybodaeth gywir, pan fyddaf ei hangen, yn y ffordd rwyf yn dymuno'i chael ac yn defnyddio hynny i reoli a gwella fy llesiant</li> <li>– Rwy'n cael fy nhrin gyda pharch ac urddas ac yn trin eraill yr un fath</li> <li>– Mae gennyf lais ac mae pobl yn gwrando arnaf</li> <li>– Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried</li> <li>– Gallaf siarad dros fy hun ac rwy'n cael fy nghynnwys mewn penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gennyf rywun sy'n gallu gwneud hynny ar fy rhan</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- mae'r wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir</li> <li>- bodlonrwydd ar y gofal a'r cymorth a gafwyd</li> <li>- bodlonrwydd ar y bobl sy'n rhoi gofal a chymorth</li> <li>- maent yn teimlo bod eu hawliau'n cael eu parchu.</li> <li>- maent yn teimlo bod ganddynt reolaeth ar eu bywyd beunyddiol a bod pobl yn gwrando arnynt.</li> <li>- maent yn teimlo'u bod wedi bod yn rhan o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.</li> <li>- y defnydd o eiriolaeth (argaeledd yn Gymraeg).</li> </ul>	<p>(1) Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arny'n nhw.</p> <p>(4) Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cefnogi.</p>
<p>Iechyd meddwl a chorfforol a llesiant emosiynol</p> <p>Hefyd i blant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Rwy'n hapus ac rwy'n iach ac rwy'n gwneud pethau i gadw fy hunan yn iach</li> <li>– Rwy'n hapus ac yn gwneud y pethau sy'n fy ngwneud yn hapus</li> <li>– Rwy'n cael y gofal a'r cymorth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- maen nhw'n teimlo'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol</li> <li>- maen nhw'n dilyn ffordd iach o fyw</li> <li>- eu datblygiad</li> <li>- eu hiechyd meddyliol ac emosiynol</li> </ul>	<p>(2) Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn.</p> <p>(4) Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cefnogi.</p>

	iawn, cyn gynted â phosibl		
Diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod</li> <li>– Rwy'n cael y cymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod</li> <li>– Rwy'n gwybod sut i fynegi fy mhryderon</li> </ul>	<p>-faint o gam-drin ac esgeuluso sy'n digwydd</p> <p>- maen nhw'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel</p> <p>- eu hymwneud â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol</p>	<p>(2) Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn.</p> <p>(4) Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cefnogi.</p>
Addysg, hyfforddiant a hamdden	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Rwy'n gallu dysgu a datblygu i fy mhotensial llawn</li> <li>– Rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi</li> </ul>	<p>- pa un a ydynt yn cael eu cynorthwyo i aros yn yr ysgol</p>	<p>(3) Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin â pharch ac mae pob math ar wahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei herio.</p> <p>(4) Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cefnogi.</p>
Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Rwy'n perthyn</li> <li>– Mae gennyf berthnasoedd diogel ac iach ac rwy'n cyfrannu atynt</li> </ul>	<p>-bodlonrwydd ar berthnasoedd personol</p> <p>-bodlonrwydd ar fywyd 'teuluol'</p> <p>-bodlonrwydd ar 'fywyd y cartref'</p>	<p>(2) Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn.</p> <p>(3) Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin â pharch ac mae pob math ar wahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei herio.</p>
Cyfraniad i'r gymdeithas	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Gallaf gymryd rhan yn fy nghymuned a chyfrannu iddi</li> <li>– Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas</li> </ul>	<p>-cyfranogiad yn y gymdeithas</p> <p>-cyfleoedd i gyfranogi yn y gymdeithas</p>	<p>(3) Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin â pharch ac mae pob math ar wahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei herio.</p> <p>(5) Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dylunio, cynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau eirioli.</p>

<p>Llesiant cymdeithasol ac economaidd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae gennyf fywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl yr wyf yn eu dewis</li> <li>- Nid wyf yn byw mewn tlodi</li> <li>- Rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol</li> <li>- Rwy'n cael gofal a chymorth drwy'r iaith Gymraeg os oes angen hynny arnaf</li> </ul>	<p>-bodlonrwydd ar fywyd cymdeithasol - tlodi - mae pobl ifanc yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi i symud ymlaen at fywyd fel oedolyn</p>	<p>(1) Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arnyn nhw.</p> <p>(2) Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn.</p>
<p>Addasrwydd lle byw</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae gennyf le addas i fyw sy'n diwallu fy anghenion</li> </ul>	<p>-pa un a yw tai'n diwallu anghenion pobl</p>	<p>(1) Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arnyn nhw.</p> <p>(4) Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cefnogi.</p>



Cynnig Gweithredol ar gyfer:

**a) Plant sy'n Derbyn Gofal (Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)**

Pan fyddant yn dod yn rhan o'r system 'Plant sy'n Derbyn Gofal', bydd plant a phobl ifanc<sup>10</sup> yn cael eu hatgyfeirio a'u cynorthwyo gan eu Gweithiwr Cymdeithasol i gael cyfarfod rhagarweiniol<sup>11</sup> gyda'u gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol lleol cyn eu cyfarfod Adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal 1<sup>af</sup>. Bydd yr apwyntiad gan gynnwys yr ymateb i'r cynnig gweithredol o wasanaeth eirioli yn cael ei gofnodi yn eu cynllun gofal a chymorth gan y gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd i weithio gyda'r person ifanc. Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cadarnhau ac yn cofnodi bod y cynnig gweithredol hwn wedi cael ei gwblhau yn yr adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal cyntaf a pha un a dderbyniwyd y cynnig o wasanaeth eirioli a'i peidio, gan gofnodi y rheswm dros beidio derbyn y cynnig lle bo hynny'n bosibl.

**b) Plentyn sy'n Wynebu Risg (Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac Adran 47 o Ddeddf Plant 2008)**

Bydd plant a phobl ifanc y mae asesiad wedi dangos bod angen gofal a chymorth arnynt sy'n cynnwys ymyriad o natur sy'n ymwneud â diogelu (Amddiffyn Plant) yn cael apwyntiad rhagarweiniol gyda'u gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol lleol a fydd yn cael ei amserlennu o fewn eu cynllun gofal a chymorth pan fyddant yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Bydd y cyfarfod yn cael ei hwyluso gan y gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd i weithio gyda'r person ifanc. Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol/Cadeirydd yn cadarnhau ac yn cofnodi bod y cynnig gweithredol hwn wedi cael ei gwblhau yn y cyfarfod adolygu nesaf a pha un a dderbyniwyd y cynnig o wasanaeth eirioli a'i peidio, gan gofnodi y rheswm dros beidio derbyn y cynnig lle bo hynny'n bosibl.

**c) Gofal a Chymorth (Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)**

Bydd plant a phobl ifanc y mae asesiad wedi dangos bod angen gofal a chymorth arnynt nad ydynt yn cynnwys ymyriad o natur sy'n ymwneud â diogelu (Amddiffyn Plant), yn cael eu hysbysu ynghylch, ac yn cael cynnig gweithredol o fynediad at, y gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol lleol fel rhan o'r broses asesu<sup>12</sup>. Bydd y cynnig a'u hymateb yn cael eu cofnodi ar eu ffeil, ynghyd â'r rheswm dros beidio derbyn y cynnig lle bo hynny'n bosibl.

<sup>10</sup> Mae Rhan 1(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio plentyn fel a ganlyn: [Ystyr "plentyn" yw person dan 18 oed]. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen ymdrin â phlant ifanc iawn sydd yn y categori 0 – 5 oed fesul achos, yn dibynnu ar y plentyn unigol, y broblem/problemiau dan sylw ac argaeledd/addasrwydd mathau eraill o eiriolaeth – hynny yw, eiriolaeth ffurfiol/gan ymarferydd neu eiriolaeth anffurfiol/gan aelod o'r teulu.

<sup>11</sup> Bydd y cyfarfod rhagarweiniol yn gyfarfod wyneb-i-wyneb rhwng y plentyn neu berson ifanc a'r gwasanaeth eiriolaeth lle bydd eiriolaeth yn cael ei esbonio a'r cynnig o gefnogaeth eiriolaeth yn cael ei dderbyn neu ei wrthod gan y plentyn neu berson ifanc.

<sup>12</sup> Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol 2014 1(b) – Mae comisiynwyr yn mynd ati'n weithredol i annog yr holl asiantaethau, timau ac oedolion sydd mewn sefyllfa i hysbysu plant a phobl ifanc ynghylch eiriolaeth i wneud hynny, i'w hannog i'w defnyddio ac i hwyluso'u cyswllt cyntaf.

Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hatgoffa sut y gall eu gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol lleol eu helpu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, naill ai gan eu Gweithiwr Cymdeithasol neu gan y Swyddog Adolygu Annibynnol/Cadeirydd ar adegau allweddol yn eu gofal a reolir megis **cyfarfodydd adolygu, symudiadau wedi'u rheoli rhwng lleoliadau**, pan fo cynlluniau ar waith i ddod yn **'Rhai sy'n Gadael Gofal'** neu gan y gwasanaeth eirioli trwy eu gweithgarwch arferol i godi ymwybyddiaeth.

## **Cynnig Gweithredol**

Galw ar Awdurdodau Lleol i wneud cynnig gweithredol o eiriolaeth i blentyn neu berson ifanc sy'n mynd i mewn i'r system gofal plant statudol ar y cyfle cynharaf posibl. Dylid gwneud y cynnig mewn cyfarfod wyneb yn wyneb rhwng y plentyn neu'r person ifanc ac eiriolwr proffesiynol annibynnol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hysbysu'n llawn am eu hawliau ac yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â swyddogaeth eiriolaeth annibynnol. Dylai'r cynnig gweithredol hwn barhau drwy gydol cyfnod plentyn neu berson ifanc mewn gofal, a dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol ei fonitro drwy'r adolygiadau statudol.

### **Argymhelliad 3 – Lleisiau Coll – Yr Hawl i Gael eu Clywed**

## **Canllawiau ar Gynnig Gweithredol**

### **Beth yw 'Cynnig Gweithredol'?**

Mae gwneud 'Cynnig Gweithredol' yn golygu rhannu gwybodaeth ynglŷn â hawl a hawlogaeth statudol plentyn neu berson ifanc mewn amgylchiadau penodol i gael cymorth gan Wasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol.

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu'n cynnwys esboniad o rôl Gwasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol, yr hyn y caiff ac na chaiff ei wneud, y ffordd mae'n gweithredu ar sail dymuniadau a theimladau, ei fod yn annibynnol a'i fod yn gweithio er mwyn y plentyn/person ifanc yn unig, ei bolisi o ran cyfrinachedd a niwed arwyddocaol – mae'n esbonio bod gan blant a phobl ifanc hawl statudol i gael cymorth i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau; yn ogystal â hawl i gyflwyno sylwadau neu wneud cwyn.


Caiff gwybodaeth ynglŷn â'r cymorth ehangach sydd ar gael iddynt ei rhannu hefyd. Mae'r cymorth ehangach hwn yn cynnwys Eiriolaeth Ffurfiol/gan Ymarferydd (hynny yw, athro/athrawes, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr iechyd proffesiynol), Eiriolaeth Anffurfiol (gan aelod o'r teulu neu ofalwr) ac Eiriolaeth gan Gyfoedion; yn ogystal â gwybodaeth am Linell Gymorth MEIC a Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

### **Pa bryd fydd cyfarfod cynnig gweithredol yn digwydd?**

Caiff cyfarfod cynnig gweithredol ei drefnu pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd i mewn i'r system Amddiffyn Plant neu'n dod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal. Bydd y cyfarfod yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl gan weithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc **gyda chytundeb** y plentyn neu'r person ifanc.

Mae Rhan 1(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio plentyn fel a ganlyn: [Ystyr “plentyn” yw person dan 18 oed]. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen ymdrin â phlant ifanc iawn sydd yn y categori 0 – 5 oed fesul achos, yn dibynnu ar y plentyn unigol, y broblem/problemau dan sylw ac argaeledd/addasrwydd mathau eraill o eiriolaeth – hynny yw, eiriolaeth ffurfiol/gan ymarferydd neu eiriolaeth anffurfiol/gan aelod o'r teulu.

### Dull Cenedlaethol – Manyleb Gwasanaeth



### Cyfarfod cynnig gweithredol

Ar ôl cael cais am gyfarfod, bydd y gwasanaeth eirioli'n dyrannu'r apwyntiad i eiriolwr. Bydd yr eiriolwr yn cyfarfod gyda'r plentyn/person ifanc i rannu gwybodaeth, a fydd yn cynnwys y canlynol:

### Cymorth Gwasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol

- Rôl gwasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol (EPA), yr hyn y caiff ac na chaiff ei wneud, y ffordd mae'n gweithredu, y ffaith ei fod yn annibynnol, ei bolisi cyfrinachedd – hawl plant a phobl ifanc i gael cymorth i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, a hawl plant a phobl ifanc i gyflwyno sylwadau neu wneud cwyn.
- Prosesau Plant sy'n Derbyn Gofal ac/neu Amddiffyn Plant, gan gynnwys yr hyn sy'n digwydd mewn Cyfarfod Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal / Cynhadledd Amddiffyn Plant, rôl gwahanol weithwyr proffesiynol yn y cyfarfodydd hynny, a'u hawl i gael cymorth gwasanaeth EPA yn y cyfarfodydd hynny.

### Gwybodaeth am gymorth ehangach

- Cymorth arall sydd ar gael, gan gynnwys Eiriolaeth Ffurfiol/gan Ymarferydd (hynny yw, athro/athrawes, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr iechyd proffesiynol), Eiriolaeth Anffurfiol (gan aelod o'r teulu

neu ofalwr) ac Eiriolaeth gan Gyfoedion; yn ogystal â gwybodaeth am Linell Gymorth MEIC a Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

## **Cymorth Gwasanaeth Eirioli**

**Gallai**'r plentyn/person ifanc benderfynu ei fod yn dymuno gwneud cais am gymorth gwasanaeth EPA o ganlyniad i'r cyfarfod:

- Os bydd y plentyn/person ifanc yn penderfynu ei fod yn dymuno cael cymorth gan y gwasanaeth EPA, bydd hynny'n cael ei drin fel 'hunanatgyfeiriad' ond bydd 'cynnig gweithredol' yn cael ei nodi fel ffynhonnell yr atgyfeiriad. Bydd yr eiriolwr, gyda chytundeb y person ifanc, yn esbonio unwaith eto (yn gryno) yr hyn y caiff/na chaiff gwasanaeth EPA ei wneud, y ffaith ei fod yn annibynnol, y ffordd mae'n gweithredu, a'i bolisi cyfrinachedd. Bydd yr eiriolwr hefyd yn gofyn am ganiatâd i agor ffeil achos eirioli ar gyfer y plentyn/person ifanc.
- **Efallai** y bydd y plentyn/person ifanc **yn dewis** cymryd ychydig o amser i feddwl am yr wybodaeth y mae wedi'i chael cyn penderfynu a yw'n dymuno cael cymorth gwasanaeth eirioli. Rhoddir gwybod i'r plentyn/person ifanc y caiff gysylltu â'r gwasanaeth eirioli yn uniongyrchol unrhyw bryd neu y caiff ofyn i rywun arall megis gofalwr, gweithiwr cymdeithasol neu swyddog adolygu annibynnol gysylltu â'r gwasanaetha ar ei ran.
- Fodd bynnag, **efallai** y bydd y plentyn/person ifanc yn **teimlo nad oes angen** cymorth gwasanaeth eirioli arno ar y pwynt hwnnw. Yn yr achos hwn hefyd, rhoddir gwybod i'r plentyn/person ifanc y caiff gysylltu â'r gwasanaeth eirioli yn uniongyrchol unrhyw bryd neu y caiff ofyn i rywun arall megis gofalwr, gweithiwr cymdeithasol neu swyddog adolygu annibynnol gysylltu â'r gwasanaeth ar ei ran.

Ym mhob achos, bydd yr eiriolwr yn sicrhau bod taflenni gwybodaeth am y gwasanaeth EPA a'i fanylion cyswllt yn cael eu rhannu â'r plentyn neu berson ifanc.

Os bydd y plentyn/person ifanc yn dweud wrth yr eiriolwr ei fod yn dymuno cael cymorth gwasanaeth eirioli gan rywun mewn rôl ffurfiol/broffesiynol/anffurfiol, bydd y plentyn/person ifanc yn cael cymorth i roi gwybod i'r gweithiwr cymdeithasol/swyddog adolygu annibynnol.

## **Parhaus**

Bydd y gweithiwr cymdeithasol neu'r swyddog adolygu annibynnol yn atgoffa'r plant a'r bobl ifanc o'r ffordd y gall y gwasanaeth EPA eu cynorthwyo ar bwyntiau allweddol yn ystod y gofal a reolir. Er enghraifft, yn ystod cyfarfodydd adolygu, wrth gynllunio i newid lleoliad neu wrth gynllunio iddynt adael gofal. Byddant hefyd yn cael eu hatgoffa drwy weithgareddau codi ymwybyddiaeth a drefnir gan y gwasanaeth EPA.

## **Cofnodi/Adrodd**

Bydd yr eiriolwr yn cofnodi a dderbyniodd y plentyn/person ifanc gynnig o wasanaeth eirioli ai peidio, gan nodi a oedd angen amser i feddwl arno neu a oedd yn benderfyniad i beidio â derbyn y cynnig am y tro, at ddibenion yr Adroddiad Monitro Prosiect chwarterol.

## **Canlyniadau**

Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hysbysu'n llawn am eu hawliau a'u hawlogaethau statudol, ac am y dewisiadau sydd ar gael iddynt o ran cymorth gwasanaeth eirioli.

Bydd plant a phobl ifanc yn penderfynu, ar sail gwybodaeth, a ydynt yn dymuno cael cymorth gwasanaeth eirioli ai peidio, a chan bwy.

Bydd canlyniadau/camau gweithredu yn cael eu cofnodi, adrodd a monitro yn yr Adroddiad Monitro Prosiect chwarterol.

## **Crynodeb o Ddulliau ar gyfer Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd**

Caiff y pedwar dull a gydnabyddir ar hyn o bryd ar gyfer eiriolaeth heb gyfarwyddyd eu nodi'n fyr isod. Cydnabyddir mai dull integredig sydd fwyaf effeithiol ar gyfer darparu eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

### **Dull sy'n seiliedig ar Hawliau**

Gyda'r dull hwn, rôl yr eiriolwr yw sicrhau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, bod hawliau dynol sylfaenol defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hybu, eu hamddiffyn a, lle y bo angen, yn cael eu defnyddio i gymryd camau cadarnhaol ar ran y defnyddiwr gwasanaethau. Lle mae'r eiriolwr yn credu y gallai'r anghyfiawnder a achosir i'r defnyddiwr gwasanaethau fod yn anghyfreithlon, dylai geisio cynrychiolaeth gyfreithiol briodol ar gyfer y person.

### **Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Trwy dreulio amser gyda'r defnyddiwr gwasanaethau, ac o bosibl eraill y mae'r cleient yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt, mae'r eiriolwr yn datblygu darlun o'i ffordd o fyw, ei ddewisiadau a'i anghenion. Gall yr eiriolwr gynrychioli barn y person yn annibynnol 'fel pe baent yn eiddo i'r eiriolwr ei hun' (O'Brien 1981). Trwy wneud hynny mae'r eiriolwr yn codi proffil safbwyntiau unigryw'r defnyddiwr gwasanaethau, a chan hynny yn hybu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

### **Dull y Briff Gwylio**

Mae'r dull hwn yn seiliedig ar 8 maes ansawdd bywyd a ddefnyddir fel y sail i gyfres o gwestiynau y gall yr eiriolwr eu gofyn i'r penderfynwr neu'r darparwr gwasanaethau ar ran y defnyddiwr gwasanaethau. Mae Briff Gwylio'n darparu fframwaith ar gyfer cwestiynu a herio'r penderfynwr neu'r darparwr gwasanaethau mewn ffordd anwrthdrawol ac mae'n annog darparwyr gwasanaethau i wneud y defnyddiwr gwasanaethau'n ganolog i'r broses benderfynu. Gan ddefnyddio model y Briff Gwylio mae'n rhaid i eiriolwyr sicrhau bod nifer o faterion yn glir: [Cafodd model y Briff Gwylio ei ddatblygu, ac mae wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth, gan wasanaethau eirioli ASIST yn Swydd Stafford.](#)

### **Dull Tyst-Sylwedydd**

Trwy arsylwi ar y ffordd y mae cleient yn byw ei fywyd, gall yr eiriolwr weld neu glywed pethau sy'n annerbyniol neu sy'n creu bygythiad i lesiant y person. Gall hefyd ddod i wybod am ddewisiadau a phleserau'r defnyddiwr gwasanaethau, y gellir eu defnyddio yn eu tro i wella perthnasoedd cadarnhaol. Nid yw'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r eiriolwr ffurfio barnau neu dybiaethau, dim ond adrodd ar ffeithiau ei arsylwadau a'u dwyn i sylw darparwyr gwasanaethau a phenderfynwyr.